# Cronfa Arian Ychwanegol: Canllawiau

**Cynnwys**

1. Gwybodaeth gyffredinol ....1

2. Gwaith maes, ymweliadau astudio a chynadleddau ....2

2.1 Ymweliadau o fewn y DG....2

2.2. Ymweliadau y tu allan i'r DG ....2

3. Prynu offer, adnoddau a hyfforddiant ....3

4. Cyflwyno ceisiadau.... 5

5. Arian sy'n weddill .... 5

## 1. Gwybodaeth gyffredinol

1.1 Bydd hyd at £500 y flwyddyn ar gael ar gyfer pob deiliad ysgoloriaeth i gefnogi gwaith maes, mynychu cynadleddau, ymweliadau astudio, prynu offer ac adnoddau, talu am hyfforddiant arbenigol, ac yn y blaen.

1.2 Diben yr arian hwn yw'ch galluogi i ymgymryd ag astudiaethau ymchwil sylfaenol, megis gwaith maes, gwaith labordy neu ymchwil archifol, sy'n hanfodol er mwyn eich galluogi i gwblhau'ch traethawd, ac i fynychu teithiau astudio a/neu gynadleddau. Mewn amgylchiadau arbennig, gellir defnyddio'r arian hefyd er mwyn prynu offer, deunyddiau traul a/neu adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal eich ymchwil, neu i dalu am hyfforddiant sgiliau ymchwil arbenigol.

1.3 Bydd angen i'ch goruchwyliwr dystio bod y gwariant hwn o'r Arian Ychwanegol yn hanfodol i'ch gwaith ymchwil er mwyn i ni ystyried y cais.

1.4 Telir arian o'r gronfa ar ffurf ad-daliadau o fewn mis i gymeradwyo cais. Mewn rhai amgylchiadau gellid anfon taliad o flaen llaw. Dylid cysylltu â'r Coleg i drafod eich cais.

1.5 Mae'r canllawiau isod yn esbonio sut i fynd ati i hawlio cyfran o'r cyllid hwn.

## 2. Gwaith Maes, Ymweliadau Astudio a Chynadleddau

### 1.1 Ymweliadau o fewn y DG

2.1.1 Ar gyfer gwaith maes, ymweliadau astudio a chynadleddau a fynychwyd o fewn y DG, rhaid cyflwyno ffurflen *Cais am Ad-daliad* **o fewn mis** ar ôl y daith neu'r gynhadledd.

### 2.2 Ymweliadau y tu allan i'r DG

2.2.1 Ar gyfer gwaith maes, ymweliad astudio neu gynhadledd y dymunwch ei mynychu tu allan i'r DG, rhaid cyflwyno ffurflen *Cais Ymlaen llaw* yn nodi amcangyfrif o'r costau tebygol o leiaf **un mis o flaen llaw**. Bydd rhaid i'r cais hwn gael ei awdurdodi gan y Coleg CYN i chi gychwyn ar eich taith neu fynychu'r gynhadledd.

2.2.2 Bydd rhaid llenwi'r ffurflen *Cais am Ad-daliad* ar ôl i chi ddychwelyd yn cadarnhau'r costau cyn y bydd modd hawlio unrhyw gostau yn ôl.

### 2.3 Llety

2.3.1 Telir y cyfraddau a ganlyn am gostau llety:

- fel arfer - hyd at £100 y noson (yn cynnwys TAW)
- Llundain (mewnol) – hyd at £150 y noson (yn cynnwys TAW)
- Prifddinasoedd eraill - hyd at £110 y noson (yn cynnwys TAW)

**2.4 Teithio**

2.4.1 Fe’ch anogwn i deithio yn y ffordd rhataf (ar drên, ar fws neu ar awyren yn gyffredinol).

2.4.2 Os ydych yn dymuno teithio mewn car, telir cyfradd o 45 ceiniog y filltir.

2.4.3 Dylid nodi’r sefydliad lle’r ydych yn astudio fel man cychwyn pob taith y byddwch yn hawlio costau teithio ar ei gyfer.

2.4.4 Byddwn yn talu am gerdyn rheilffordd myfyriwr os bydd prynu’r cerdyn yn arwain at arbediad cyffredinol.

2.4.5 Os ydych chi'n teithio ar drên, dylid gwneud ymdrech resymol i brynu’r tocynnau ymlaen llaw er mwyn manteisio ar y prisiau gorau.

2.5 Nid ydym yn ymrwymo i dalu’ch holl gostau yn deillio o gynnal gwaith maes, mynd ar daith astudio neu fynychu cynhadledd. Ni fyddwn yn talu costau sy’n ymwneud â llungopïo, costau tacsi neu fwyd, er enghraifft, ond byddwn yn talu cost cerdyn llyfrgell neu ffioedd cofrestru.

## 3. Prynu Offer, Adnoddau a Hyfforddiant

3.1 Mewn amgylchiadau arbennig, a lle y cytunwyd o flaen llaw gyda’ch sefydliad, bydd y Coleg yn fodlon ystyried ceisiadau i ddefnyddio’r Arian Ychwanegol at ddibenion eraill i gefnogi eich ymchwil, e.e. prynu offer, deunyddiau traul ac adnoddau, neu i dalu am hyfforddiant sgiliau ymchwil arbenigol.

3.2 Ni ddylid gwneud cais i’r Coleg am Arian Ychwanegol os oes modd hawlio arian gan ffynhonnell arall i dalu am y deunyddiau hyn. Mae’n ofynnol i

sefydliadau ddarparu offer, deunyddiau traul ac adnoddau i fyfyrwyr doethurol, a chyfrennir at gostau darparu'r pethau hyn fel arfer drwy'r ffioedd a delir i'r sefydliad. Dylai'r sefydliad ddarparu cyfleusterau fel swyddfa a chyfleusterau TGCh (cyfrifiadur â'r meddalwedd diweddaraf, mynediad i'r rhyngrwyd, e-bost ac ati), offer swyddfa, gwasanaeth llungopïo, ffôn. Dylai'r sefydliad hefyd ddarparu unrhyw offer arbenigol sy'n angenrheidiol ar gyfer eich ymchwil, a deunyddiau traul megis ar gyfer cynnal gwaith labordy. Gwiriwch yn y lle cyntaf gyda'ch goruchwyliwr pa offer a faint o ddeunyddiau traul a ddarperir i chi gan y sefydliad. Cyn gwneud cais i'r Coleg am Arian Ychwanegol dylech hefyd wirio i ba ffynonellau nawdd eraill y gallwch ymgeisio iddynt.

3.3 Dim ond ar gyfer offer, deunyddiau traul a/neu adnoddau sydd i'w defnyddio at ddibenion yr ymchwil yn unig y bydd y Coleg yn fodlon ystyried cais i'r gronfa Arian Ychwanegol. Ni fydd y Coleg fel arfer yn fodlon talu am liniadur, am feddalwedd nac am lyfrau y byddant o ddefnydd ehangach i'r deiliad tu hwnt i'w ymchwil – ystyrir ei bod yn berffaith resymol disgwyl i'r deiliad dalu am offer ac adnoddau cyffredinol o'r math hynny o'i adnoddau ei hun.

3.4 Darperir hyfforddiant Sgiliau Ymchwil pwrpasol i ddeiliaid gan y Coleg Cymraeg a gan sefydliadau lleol yn rhad ac am ddim. Serch hynny, gellir gwneud cais i'r gronfa Arian Ychwanegol i dalu am hyfforddiant arbenigol nad ydyw ar gael oddi fewn i'r Rhaglen Sgiliau Ymchwil a drefnwyd dan nawdd y cynllun ysgoloriaethau neu gan y sefydliad yn lleol.

3.5 Ar gyfer pob cais am Arian Ychwanegol i brynu offer, adnoddau, neu i dalu am hyfforddiant arbenigol, bydd rhaid cyflwyno ffurflen *Cais Ymlaen Llaw* yn amcangyfrif y costau tebygol o leiaf **un mis o flaen llaw**. Bydd rhaid i'r cais hwn gael ei awdurdodi gan y Coleg CYN i chi brynu'r offer neu drefnu'r hyfforddiant, a bydd rhaid llenwi'r ffurflen *Cais am Ad-daliad* **o fewn un mis ar ôl** prynu'r

offer neu fynychu'r hyfforddiant yn cadarnhau'r costau cyn y bydd modd hawlio unrhyw gostau yn ôl.

## 4. Cyflwyno ceisiadau

4.1 Bydd rhaid i'ch goruchwyliwr lofnodi pob cais i'r gronfa Arian Ychwanegol gan gadarnhau fod y gwariant hwn yn hanfodol i'ch gwaith ymchwil. Bydd y Coleg yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw geisiadau y tybia sy'n amhriodol neu nad ydyw'n hanfodol.

4.2 **Rhaid darparu prawf o bob gwariant wrth gyflwyno'r ffurflen *Cais am Ad-daliad*, megis derbynebau neu docynnau** am y costau teithio ac unrhyw gostau eraill (megis cerdyn llyfrgell, pris mynediad amgueddfa neu archifdy, ffi cofrestru cynhadledd, ayyb).

4.3 Os bydd rhaid talu unrhyw gostau mewn arian heblaw punnoedd sterling, dylid nodi'r union gyfradd gyfnewid pan dalwyd y costau hynny a darparu tystiolaeth o'r swm a dalwyd (mewn punnoedd yn ogystal â'r arian breiniol).

4.4 Dylid anfon ceisiadau at Dr Manon James: m.james@colegcymraeg.ac.uk.

## 5. Arian sy'n weddill

5.1 Bydd hawl gan ddeiliaid i ofyn caniatâd i gario unrhyw arian sy'n weddill o un flwyddyn ariannol i'r llall.

5.2 At ddibenion y gronfa Arian Ychwanegol, bydd y flwyddyn ariannol yn cyfateb i flwyddyn academaidd deiliad yr ysgoloriaeth (sef, fel arfer, 1 Hydref hyd 30 Medi).

5.3 Rhaid i geisiadau fel hyn gael eu cyflwyno i'r Coleg CYN diwedd y flwyddyn ariannol a rhaid i'r cais gael ei awdurdodi'n ffurfiol gan y Coleg CYN y caiff y gweddill ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol newydd.

5.4 Gwneir cais drwy anfon e-bost at Dr Manon James: m.james@colegcymraeg.ac.uk.